# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(**SLC(3)-11-09)**

## SLC274

### Adroddiad drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Teitl: Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion yn ymwneud ag apelau yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn plentyn i ysgol. Gwneir dau ddiwygiad. Bach iawn yw'r diwygiad cyntaf a fwriedir i egluro materion y dylid eu hystyried gan banel apêl pan fydd yn ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau a wnaed ar sail deddfwriaeth maint dosbarth babanod. Mae'r ail yn rhoi Atodlen 2 newydd yn lle'r hen un yn Rheoliadau 2005, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer apelau mewn achosion lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud am blant sy'n mynd i'r chweched dosbarth, neu sy'n cael addysg ar ôl iddynt beidio â bod yn blant o oedran ysgol gorfodol. Mae'r Atodlen newydd yn dileu cyfeiriadau at y Cyngor Tribiwnlysoedd, a ddisodlwyd gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwynt canlynol ar gyfer cyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae'r testun Saesneg yn gyson yn cyfeirio at "local authority" ("awdurdod lleol") tra mae'r testun Cymraeg (ac eithrio rheoliad 2 (5) a (11), sy'n cyfeirio at "awdurdod addysg lleol") yn cyfeirio at "awdurdod lleol". Mae'r ddau ddarpariaeth galluogi penodol a ddyfynnwyd (adrannau 94 a 95 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) a Rheoliadau 2005 yn cyfeirio'n gyson at "local education authority" ("awdurdod addysg lleol") sydd felly y term y dylid bod wedi'i ddefnyddio yn y Rheoliadau hyn. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi)].

Mae testun Saesneg rheoliad 2 (5) a (11) yn cyfeirio at "local authority" (awdurdod lleol) tra bo testun Cymraeg rheoliad 2 (5) a (11) yn cyfeirio at "awdurdod addysg lleol". [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Ebrill 2009; mae'n bwysig felly bod yr anghysondeb uchod yn cael ei gywiro cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Ebrill 2009**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Bydd y Llywodraeth, o fewn 3 mis, yn gwneud Rheoliadau diwygio mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod defnyddio'r term awdurdod lleol yn effeithio ar y ffordd y caiff y Rheoliadau eu deall.